# P-04-446 : Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Mae siopau elusen yn gwneud cyfraniad hollbwysig i godi arian ar gyfer ystod eang o achosion da yng Nghymru. Mae 100 y cant o'u helw yn mynd i elusen, gan godi dros £12 miliwn bob blwyddyn yng Nghymru.

Byddai cynlluniau i leihau cymorth cyfradd i siopau elusen yng Nghymru yn lleihau'r incwm hwn, a byddai'n achosi i siopau elusen i gau, gan adael mwy o siopau gwag ar strydoedd mawr Cymru ac yn bygwth 700 o swyddi llawn amser a 9,000 o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu cynnig gan siopau elusen yng Nghymru. Byddai'n lleihau y gwasanaethau mae elusennau yn gallu eu darparu i gymunedau yng Nghymru yn arwyddocaol.

Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wrthod cynlluniau allai gyfyngu y cymorth cyfradd hanfodol i siopau elusen Cymru.

Prif ddeisebydd: Charity Retail Association

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 15 Ionawr 2013

Nifer y llofnodion: +22,600